Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tueddiadau Rhanbarthol 40

2008

Cymru

Yn 2006 roedd gan Gymru boblogaeth o 3.0 miliwn. Roedd poblogaeth breswyl y rhanbarth wedi cynyddu 56,000 rhwng canol 2001 a chanol 2006. (Tabl 3.1)

Roedd poblogaeth Cymru wedi cynyddu 5.4 y cant rhwng 1981 a 2006 yn ôl yr amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth. Roedd y newid canran mwyaf yng Ngheredigion gyda chynnydd o 26 y cant rhwng y blynyddoedd hyn. (Tabl 2.39)

Roedd y gyfradd marwolaethau babanod yng Nghymru yn 2005 yn is na chyfartaledd y DU: 4.3 o'u cymharu â 5.1 o farwolaethau babanod dan un oed fesul 1,000 o enedigaethau byw yn y drefn honno. O fewn y rhanbarth, y gyfradd isaf oedd 1.8 yn Nhor-faen a'r uchaf oedd 7.7 yng Nghasnewydd. (Tabl 7.2)

Roedd gan Gymru y gyfradd isaf ond un o hysbysiadau am Dwbercwlosis (TB) yn y DU, 5.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2006. (Tabl 7.7)

Yng Nghymru roedd gan 6 y cant o'r dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd a gynhelir dros 30 o ddisgyblion. Mae hyn o'i gymharu ag 11 y cant ym Mhrydain Fawr yn ei chyfanrwydd yn 2006/07. (Tabl 4.2)

Yn 2005/06, roedd 80 y cant o bobl ifanc 16 oed yng Nghymru mewn addysg ôl-orfodol amser llawn neu hyfforddiant a gefnogir gan y llywodraeth. Mae hyn o'i gymharu â chyfradd y DU o 82 y cant. (Tabl 4.7)

Cyfran y bobl o oedran gweithio sy'n meddu ar gymwysterau TAG Safon Uwch / cyfwerth neu'n uwch yng Nghymru oedd 49 y cant yn ail chwarter 2007, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 51 y cant. (Tabl 4.10)

Yn ail chwarter 2007 y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru oedd 72 y cant o bobl o oedran gweithio o'i chymharu â chyfradd y DU o 74 y cant. (Tabl 5.1)

Canolrif enillion wythnosol gros ar gyfer gweithwyr amser llawn ar gyfraddau oedolion yn y rhanbarth yn Ebrill 2007 oedd £450 i ddynion a £362 i fenywod, 10 ac 8 y cant yn is na chanolrif enillion y DU yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli gwerthoedd canol, lle roedd hanner y dynion (neu'r menywod) wedi ennill mwy na'r swm hwn ac roedd hanner wedi ennill llai. (Tabl 5.12)

Roedd y gyfran uchaf o gyfanswm y gwerth ychwanegol crynswth (GYC) yng Nghymru yn 2004 yn dod o weithgynhyrchu, 18 y cant o'i gymharu â 14 y cant ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Yr ail fwyaf oedd eiddo, rhentu a gweithgareddau busnes, 18 y cant (25 y cant ar gyfer y DU). (Tabl 12.5)

GYC y pen yng Nghymru yn 2006 oedd £14,000 o'i gymharu â £19,100 ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, yr isaf yn y DU. (Tabl 12.1)

Y pris cyfartalog am dŷ pâr yn Lloegr a Chymru yn 2006 oedd £185,000. Yng Nghymru roedd y pris am annedd o'r un fath 22 y cant yn is ar £145,000. (Tabl 6.5)

Roedd cartrefi yng Nghymru yn gwario lleiaf ar fwytai a gwestai fesul wythnos yn 2003 i 2006 ar £31. Cyfartaledd y DU ar gyfer hyn oedd £36. (Tabl 8.10)

Yng Nghymru roedd 34 y cant o'r cartrefi yn derbyn pensiynau ymddeol yn 2005/06, yr uchaf yn y DU ar y cyd â'r De Orllewin. Ffigur y DU ar gyfer y budd-dâl hwn oedd 30 y cant. (Tabl 8.8)

Yn ail chwarter 2007 cyfran y plant a oedd yn byw mewn cartrefi di-waith yng Nghymru oedd 18 y cant o'i gymharu â ffigur y DU o 16 y cant. (Tabl 8.9)

Ym Mawrth 2007 roedd ychydig yn llai na 8,000 o heddweision yng Nghymru, un ar gyfer pob 388 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn cymharu ag un ar gyfer pob 391 o'r boblogaeth ar draws y DU. (Tabl 9.5)

Cyfanswm y costau moduro yng Nghymru yn y cyfnod 2003 i 2006 oedd £56 yr wythnos fesul cartref o'i gymharu â £62 ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. (Tabl 10.9)

Yn 2006 y gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth o ddamweiniau angheuol a difrifol ar bob ffordd yng Nghymru oedd 39, yr isaf ym Mhrydain Fawr. Cyfradd Prydain Fawr oedd 47. (Tabl 10.14)

Rhwng 1993 a 2006 roedd y traffig ar y prif ffyrdd yng Nghymru wedi cynyddu 30 y cant, y cynnydd mwyaf ond un ym Mhrydain Fawr. (Ffigur 10.12)

Yn 2006 roedd 37,000 o ddaliadau amaethyddol yng Nghymru, un o'r uchaf o blith unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU. (Tabl 13.14)

Tabl 2.37 Ystadegau allweddol ar gyfer Cymru

	Cymru	Y Deyrnas Unedig[1]
Poblogaeth, 2006[2] (miloedd)	3,000	60,600
Canran dan 16 oed[2]	*18.9*	*19.1*
Canran oedran pensiwn a drosodd[2]	*20.7*	*18.7*
Cymhareb Marwolaethau Safonedig (DU=100), 2005	103	100
Cyfradd marwolaethau babanod,[3] 2005	4.3	5.1
Canran y disgyblion sy'n ennill 5 gradd A*-C neu fwy ar lefel TGAU neu gyfwerth, 2005/06	*53.8*	*59.0*
Cyfradd gweithgarwch economaidd[4], ail chwarter 2007 canrannau	*76.7*	*78.8*
Cyfradd gyflogaeth[4], ail chwarter 2007 (canrannau)	*72.2*	*74.4*
Cyfradd ddiweithdra[4], ail chwarter 2007 (canrannau)	*5.8*	*5.5*
Canolrif enillion wythnosol gros: gwrywod mewn cyflogaeth amser llawn, Ebrill 2007 (£)	450	498
Canolrif enillion wythnosol gros: benywod mewn cyflogaeth amser llawn, Ebrill 2007 (£)	362	394

	Cymru	Y Deyrnas Unedig1
Gwerth ychwanegol crynswth[5], 2006 (DU = tynnu allranbarth)(£ biliwn)	43	1,129
Mynegai gwerth ychwanegol crynswth y pen[5], 2006 (DU=100)	77	100
Pris cyfartalog annedd[1], 2006 (£ miloedd)	158	204
Ceir modur sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd,[1,6] 2006 (miloedd)	1,413	27,830
Damweiniau angheuol a difrifol ar y ffyrdd,[1] 2006 (cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth)	38.8	47.4
Cyfradd troseddau a gofnodwyd[1], 2005/06 (tramgwyddau a gofnodwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth)	8,700	10,300
Incwm wythnosol gros cyfartalog cartrefi, 2003/04 i 2005/06[7] (£)	492	596
Gwariant wythnosol cyfartalog cartrefi, 2003/04 i 2005/06[7] (£)	372	432
Cartrefi sy'n derbyn Credydau Treth, 2005/06 (canrannau)	*17*	*17*

1 Mae'r ffigurau'n ymwneud a'r DU ac eithrio ceir modur sydd wedi'u trwyddedu ar hyn o bryd, a damweiniau angheuol a difrifol (Prydain Fawr); a phris cyfartalog annedd a'r gyfradd troseddau a gofnodwyd (Lloegr a Chymru).

2 Mae ffigurau'r boblogaeth ar gyfer 2006 yn amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth. Oedran pensiwn yw dynion 65 oed neu drosodd a menywod 60 oed neu drosodd.

3 Marwolaethau babanod dan un oed fesul 1,000 o enedigaethau byw.

4 Data a addaswyd yn dymhorol ar gyfer pobl o oedran gweithio, dynion 16 i 64 oed a menywod 16 i 59 oed.

5 Yn seiliedig ar y gweithle.

6 Mae'r cyfansymiau ar gyfer y DU yn cynnwys cerbydau lle mae gwlad y cerbyd cofrestredig yn anhysbys, rhai sy'n cael eu gwaredu neu sydd o wledydd anhysbys o fewn Prydain Fawr.

7 Data a gyfunwyd o Arolygon Gwariant a Bwyd 2003/04, 2004/05 a 2005/06.